# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Priory House**

**Priory House**
**Aberdaugleddau**
**SA73 3UA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

30/03/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Priory House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Priory Project Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 9 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 2 Chwefror 2018 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn hapus yn byw yn Priory House. Dywedodd y bobl wrthym, a chadarnhaodd y staff, fod ganddynt fywyd o ansawdd da a chydberthynas gadarnhaol â'r gweithwyr gofal. Mae tîm staff gofalgar ac ymroddedig yn adnabod y bobl yn dda ac yn siarad yn wybodus ac yn annwyl amdanynt.

Mae'r gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl i wneud pethau sy'n bwysig iddynt. Mae tîm y staff yn canolbwyntio ar anghenion unigol pob unigolyn ac maent am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl. Mae sianeli cyfathrebu da yn amlwg ar draws y gwasanaeth ac mae systemau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr ac yn mynychu hyfforddiant rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac i barhau i ddiwallu anghenion y bobl yn effeithiol.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd a chânt eu trin ag urddas a pharch. Mae yna awyrgylch hamddenol a digynnwrf gyda'r bobl yn cael eu cefnogi gan y staff ar eu cyflymder eu hunain. Mae'r gweithwyr gofal yn rhoi arweiniad a sicrwydd pan fo angen, ac maent yn adnabod y bobl yn dda ac yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â nhw. Cynigir dewisiadau i'r bobl ac mae mynediad at eiriolaeth ar gael os oes angen. Cynhelir adolygiadau cynnydd a llunnir adroddiad blynyddol cynhwysfawr yn manylu ar gynnydd yr unigolyn drwy gydol y flwyddyn. Mae perthnasau a gweithwyr proffesiynol eraill yn cymryd rhan weithredol mewn adolygiadau a thrafodaethau i sicrhau bod y newidiadau a wneir er budd gorau pobl. Mae'r gweithwyr gofal yn ystyriol, mae eu rhyngweithiadau'n gadarnhaol, ac mae'r bobl yn cael eu trin mewn ffordd urddasol a pharchus.

Mae anghenion iechyd meddwl a chorfforol y bobl, a'u llesiant emosiynol, yn cael eu diwallu. Mae iechyd yn cael ei fonitro a gwneir apwyntiadau ac atgyfeiriadau yn ôl yr angen. Anogir y bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel ymweld â siopau a chaffis lleol, mynychu cyfleoedd cyflogaeth â chymorth, a chymryd rhan mewn digwyddiadau a grwpiau chwaraeon. Mae’r gweithgareddau hyn wedi’u cwtogi o reidrwydd yn ystod pandemig COVID-19 ond maent yn ailddechrau bellach. Mae cynllunwyr gweithgareddau wedi'u sefydlu i ddarparu trefn a strwythur i ddyddiau'r bobl.

Mae gwybodaeth yn cael ei chofnodi am yr hyn sy'n bwysig i bobl, pwy sy'n bwysig iddynt, a sut i gadw mewn cysylltiad. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n ymroddedig iawn i'r gwaith y maent yn ei wneud yn y cartref a'u bod yn mwynhau gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r bobl sy'n byw yno. Dywedasant wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwr y gwasanaeth a chan y tîm staff yn gyffredinol. Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch y bobl. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant mewn diogelu, yn gwybod beth y dylent ei wneud os ydynt yn amau cam-drin, ac yn teimlo y gallant leisio unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda'r tîm rheoli. Mae asesiadau risg ar waith sy'n rhoi cyfeiriad clir i'r staff ei ddilyn.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion, sy’n cael ei gynnal a’i gadw’n dda, ac sy'n gartrefol. Roedd yr ystafelloedd y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys eitemau personol a oedd yn adlewyrchu hoffterau unigol y bobl ynddynt. Mae yna leoedd i'r bobl gymdeithasu a threulio amser tawel os dymunant. Mae'r amgylchedd gyda digon o le, yn olau ac yn awyrog heb unrhyw arogleuon drwg drwyddo draw. Mae rhaglen barhaus o adnewyddu a chynnal a chadw sy'n sicrhau bod yr amgylchedd mewn cyflwr da bob amser ar gyfer y bobl sy'n byw ynddo. Mae’r gerddi mawr mewn cyflwr da ac yn cynnig cyfle diogel i bobl dreulio amser yn yr awyr agored, naill ai i gymdeithasu neu i dreulio amser tawel.

## Gofal a Chymorth

Darperir gofal a chymorth o’r ansawdd sydd ei angen ar y bobl drwy wasanaeth sy'n ymgynghori â nhw a'u cynrychiolwyr. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda fel y gwelir drwy arsylwi a thrafod yn uniongyrchol gyda'r bobl a'r gweithwyr gofal. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn y ffordd sydd orau ganddynt. Mae cynlluniau gofal ar waith ar gyfer pob unigolyn. Mae'r rhain yn fanwl ac yn llawn gwybodaeth ac wedi'u hysgrifennu'n glir, ac yn cynnwys amserlenni a chanlyniadau i'r bobl gyflawni eu nodau. Mae'r bobl yn ymwybodol o'u cynlluniau a phryd mae adolygiadau'n cael eu cynnal. Cânt eu hannog i gyfrannu at adolygiadau pryd bynnag y bo modd. Gwelsom gofnodion o apwyntiadau gyda gweithwyr iechyd proffesiynol, atgyfeiriadau atynt ac ymweliadau ganddynt, gyda mewnbwn arbenigol yn cael ei ddarparu lle bo angen. Roedd cofnodion yn dangos bod cyfathrebu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol a bod cydberthnasau da wedi'u meithrin.

Mae risgiau ac anghenion arbenigol pobl wedi'u dogfennu'n glir. Mae cynlluniau gofal ac asesiadau risg yn darparu gwybodaeth glir a chyfredol am anghenion y bobl a'r ffordd y maent yn hoffi cael eu cefnogi a derbyn gofal. Mae gwybodaeth am ymyriadau arbenigol – er enghraifft, cyngor a roddwyd gan y therapydd lleferydd ac iaith – yn cael ei chofnodi'n glir er mwyn i'r staff wybod pa gymorth i'w ddarparu. Mae asesiadau risg yn cael eu personoli i gwmpasu’r gweithgareddau a gyflawnir gan bob unigolyn. Mae asesiadau risg manwl unigol i gadw pobl yn ddiogel rhag COVID-19 hefyd wedi cael eu datblygu. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylan i reoli'r risg a berir gan heintiau. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer rheoli heintiau ac ar gyfer COVID-19. Gwelsom staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol a gwelsom fod cyflenwadau digonol ar gael yn y cartref. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant rheoli heintiau, ac roeddent yn siarad yn wybodus am sut i gadw pobl yn ddiogel a lleihau lledaeniad posibl heintiau. Mae polisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau clir ar waith ac maent yn cael eu diweddaru pan fo angen. Mae arferion da ar waith ar gyfer pobl sy'n dod i mewn i'r cartref. Gofynnwyd i ni am dystiolaeth o brawf llif unffordd negyddol a gofynnwyd i ni lenwi ffurflen gofrestru gynhwysfawr ynghylch COVID-19 cyn mynd i mewn i'r cartref.

Mae systemau effeithiol ar waith i ddiogelu pobl. Cedwir cofnodion o unrhyw ddigwyddiadau, damweiniau, pryderon a materion diogelu ac o'r camau a gymerwyd. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i weithwyr gofal eu dilyn i gadw'r bobl a nhw eu hunain yn ddiogel. Mae'n ofynnol iddynt lofnodi i ddangos tystiolaeth eu bod wedi darllen a deall y dogfennau hyn. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant ac maent yn glir ynghylch yr angen i adrodd am unrhyw faterion i'r tîm rheoli.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn gallu gwneud pethau drostynt eu hunain gan fod y cynllun a'r cyfleusterau yn y cartref yn hyrwyddo annibyniaeth a hygyrchedd. Darperir gofal a chymorth i'r bobl mewn amgylchedd helaeth sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae ystafelloedd gwely unigol wedi'u dodrefnu'n dda ac yn gyfforddus. Maent wedi'u personoli ac yn adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r preswylydd. Mae'r bobl yn teimlo ymdeimlad cryf o berthyn ac o berchnogaeth o'u hystafelloedd ac o'r cartref yn gyffredinol. Mae ardaloedd cymunol cyfforddus i bobl dreulio amser ac ymlacio ynddynt. Dywedodd y bobl, y gweithwyr gofal a'r rheolwr wrthym fod y bobl yn cymryd rhan weithredol wrth wneud dewisiadau ynghylch edrychiad eu cartref ac wrth helpu i ddewis dodrefn a ffabrigau dodrefnu.  Cwblheir archwiliadau amgylcheddol ac mae cynllun cynnal a chadw ar waith ar gyfer gwaith i'w wneud. Gwelsom fod pob rhan o'r cartref yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda a'i bod mewn cyflwr addurniadol da. Mae tystiolaeth glir o amserlen barhaus o adnewyddu ac ailaddurno. Mae cegin newydd wedi'i gosod sy'n cynnig man glân a llachar sydd wedi'i osod yn dda i helpu i baratoi prydau bwyd os dymunant. Roedd drysau tân newydd, yn unol ag arddull domestig y cartref, yn cael eu gosod ar adeg yr arolygiad.

Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu hannog i'w gadw'n lân ac yn daclus, yn enwedig o ran eu hystafelloedd eu hunain.  Roedd y bobl yn awyddus i ddangos eu hystafelloedd i ni, gan ddangos balchder a boddhad wrth eu cadw'n lân ac yn drefnus.

Mae'r holl ffeiliau cyfrinachol, gan gynnwys ffeiliau gofal a staff, yn cael eu storio'n ddiogel. Mae risgiau i iechyd a diogelwch yn cael eu nodi a'u lliniaru. Gwelsom fod gwiriadau a mesurau iechyd a diogelwch ar waith a'u bod yn gyfredol a bod polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch ar waith.  Mae cynlluniau personol gadael mewn argyfwng ar waith ar gyfer pob preswylydd. Gofelir am y bobl mewn amgylchedd diogel sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, ac mae eu hawl i breifatrwydd a chyfrinachedd yn cael ei pharchu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth ac i sicrhau bod pobl yn cael gofal a chymorth o ansawdd da.

Mae'r gwasanaeth yn darparu gweithwyr gofal sy'n gymwys, medrus a gwybodus ac mae digon o staff ar gael i ofalu am y bobl a'u cefnogi. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod ganddynt ddigon o amser i'w dreulio gyda'r bobl ac nad ydynt yn cael eu rhuthro. Dywedodd y gweithwyr gofal eu bod yn mwynhau eu gwaith a'u bod yn cael boddhad mawr o helpu a chefnogi'r bobl sy'n byw yn Priory House. Roeddent yn siarad yn gadarnhaol am gymorth y tîm rheoli ac am y tîm staff yn gyffredinol. Gwnaethom edrych ar rotâu staff, a oedd yn dangos yn gyson bod digon o staff ar ddyletswydd. Mae cymorth un-i-un i'r bobl sydd ei angen wedi’i nodi’n glir.

Mae'r staff gofal sy'n gweithio yn y cartref yn cael eu recriwtio a'u hyfforddi'n ddiogel. Roedd y ffeiliau personél y gwnaethom edrych arnynt yn dangos y ceisiwyd y gwiriadau gofynnol ar gyfer gweithwyr gofal cyn iddynt ddechrau gweithio. Gwelsom dystiolaeth o sesiynau sefydlu ac roedd tystysgrifau hyfforddi ar waith. Yn ogystal â hyfforddiant mewn meysydd gorfodol, mae gweithwyr gofal wedi cael hyfforddiant arbenigol ychwanegol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion y bobl sy’n byw yn y cartref, megis y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, hyfforddiant epilepsi ac awtistiaeth, cymorth ymddygiad cadarnhaol, ac ymwybyddiaeth o ddementia. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod wedi cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt ac, os ydynt yn gofyn am hyfforddiant ychwanegol, caiff hwn ei ddarparu pryd bynnag y bo modd. Mae cofnodion goruchwylio yn dangos rhai bylchau mewn goruchwyliaeth ffurfiol o staff bob tri mis. Fodd bynnag, mae'r rheolwr wedi dechrau mynd i'r afael â hyn a gwelsom fod nifer o weithwyr gofal wedi cymryd rhan mewn sesiynau goruchwylio diweddar. Dywedodd yr holl weithwyr gofal y siaradwyd â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda iawn gan y rheolwr gan ei bod yn aml yn gweithio ochr yn ochr â nhw, gan ddarparu goruchwyliaeth a chymorth anffurfiol. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y rheolwr bob amser ar gael pan fo angen a'u bod yn teimlo'n gyfforddus i fynd ati gydag unrhyw syniadau neu broblemau a allai fod ganddynt.

Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod morâl yn y cartref yn dda iawn. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr, yr unigolyn cyfrifol a’r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Roedd y rheolwr yn ei thro yn canmol y tîm staff yn fawr, gan ddweud wrthym am yr ymdrechion yr oeddent wedi’u gwneud i barhau i gadw'r bobl a’i gilydd yn ddiogel yn ystod pandemig COVID-19. Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd er mwyn trosglwyddo canllawiau a gwybodaeth ac i sicrhau yr ymgynghorir â'r holl weithwyr gofal a'u bod yn cael eu cynnwys mewn unrhyw newidiadau sydd i'w gwneud.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn cynhyrchu adroddiad misol sy'n nodi ei bod wedi siarad â phobl sy'n byw yn y cartref ac wedi nodi unrhyw feysydd y gallai fod angen eu gwella. Ymgynghorir â'r bobl am y gofal a gânt ar ffurf holiadur a thrwy drafodaeth reolaidd. Nid oes adroddiad ansawdd gofal, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, wedi'i lunio a chawsom sicrwydd bod hwn ar y cam ystyried a datblygu ar adeg yr arolygiad. Gofynnwyd i gopi o'r adroddiad hwn gael ei anfon at AGC ar ôl ei gwblhau.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Meysydd I'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/05/2022